

Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu Economaidd

Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Y Cynllun Gweithredu Economaidd (22 Mai 2018)

Diolch, Llywydd. Pan lansiais y cynllun gweithredu economaidd, eglurais fy mod yn cyflwyno dull newydd o sicrhau buddsoddiad cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol i gefnogi ein strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i bawb' a'i phum maes blaenoriaeth, sef y blynyddoedd cynnar, iechyd meddwl, cyflogadwyedd a sgiliau, tai, a gofal cymdeithasol. Drwy'r cynllun, rydym ni'n adeiladu ar y cynnydd ardderchog a wnaed gennym. Gyda dros 37,000 o swyddi wedi eu cefnogi ledled Cymru gyfan yn y flwyddyn diwethaf a thros 190,000 yn y pum mlynedd diwethaf o Lywodraeth, mae gennym ni hanes llwyddiannus. Fodd bynnag, mae ein heconomi yn newid ac mae'n rhaid inni newid gydag ef i fod yn gynhwysol ac yn gystadleuol yn y dyfodol. Heddiw, rwy'n falch o gyhoeddi cam mawr ymlaen wrth gyflawni'r cynllun a'i weledigaeth gymhellol i gryfhau ein sylfeini economaidd, diogelu busnesau ar gyfer y dyfodol a grymuso rhanbarthau cynhyrchiol a phobl.

Ers lansio'r cynllun gweithredu economaidd bum mis yn ôl, fe'm calonogwyd gan y ffordd gadarnhaol y cafodd ei dderbyn. Rydym ni wedi teithio ar hyd a lled Cymru i siarad â busnesau, cyrff cynrychioliadol ac eraill am y cynllun a cheisio eu barn ynglŷn â sut yr ydym ni yn gweithredu ac yn cyflawni ei ymrwymadau. Bu'r sgysiau hyn yn gyffrous, yn heriol ac, uwchlaw popeth, yn hynod ddiddorol ac addysgiadol. Bu'r hyn a glywsom yn amhrisiadwy o ran y ffordd ymlaen, ac rwy'n ddiolchgar iawn i bawb a roddodd o'u hamser i siarad â ni. Bu natur y sgysiau hynny mor amrywiol â'r cyfranogwyr, ond mae nifer o negeseuon cyffredin wedi dod i'r amlwg dro ar ôl tro. Yn gyntaf, mae datblygu economaidd yn seiliedig ar berthynas gref nid yn unig rhwng busnes a Llywodraeth, ond hefyd ag amrywiaeth o bartneriaid eraill hefyd—ein sefydliadau dysgu, undebau llafur, awdurdodau lleol, y trydydd sector, ac, wrth gwrs, bobl. Yr ail yw pwysigrwydd cymesuredd a hyblygrwydd wrth ymdrin ag anghenion busnesau amrywiol o feintiau, mathau a lleoliadau gwahanol ledled Cymru. Yn drydydd, mae gwneud gwahaniaeth yn ymwneud â mwy na dim ond newidiadau mewn polisi; mae'n ymwneud â diwylliannau, arferion a ffyrdd o weithio.

Rydym ni wedi defnyddio'r dysgu hwn i ddatblygu'r model gweithredu newydd yr wyf yn ei lansio heddiw. Drwy'r contract economaidd, byddwn yn datblygu perthynas newydd a chryfach â busnesau i sbarduno twf cynhwysol ac arferion busnes cyfrifol. Bydd busnesau sy'n ceisio ein cefnogaeth yn dechrau ar drafodaeth barhaus gyda ni—un sy'n symud o gyd fodolaeth i gydweithio. Rydym yn disgwyl i fusnesau ymrwymo i dwf, gwaith teg, lleihau ôl troed carbon, iechyd, sgiliau a dysgu yn y gweithle. Dyma'r mathau o arferion sydd eisoes i'w gweld mewn nifer o fusnesau llwyddiannus a chyfrifol. Byddwch yn cydnabod y busnesau hynny sydd eisoes yn ymdrechu i fabwysiadu arferion cyflogaeth a busnes cyfrifol, a byddwn yn annog ac

yn cefnogi eraill i fabwysiadu arferion tebyg. Mae a wnelo hyn ag ymgysylltu, cymhelliant a lledaenu arferion da—dull rhywbeth-am-rywbeth cyfatebol.

Os yw'r contract economaidd yn canolbwyntio ar yr hyn y mae busnesau yn ei wneud heddiw, yna ein galwadai i weithredu fydd yn paratoi busnesau ar gyfer yfory. Rydym ni eisiau gweithio gyda busnes i gyd-fuddsoddi yn y math o fuddsoddiad a fydd yn eu paratoi i wynebu'r dyfodol a chryfhau ein heconomi heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. O heddiw ymlaen, pum galwad i weithredu fydd y lens newydd y byddwn yn sianelu drwyddo ein cyllid busnes uniongyrchol.

Mae'r galwadau i weithredu yn herio'r Llywodraeth a busnesau i ystyried buddsoddi yn y dyfodol drwy'r cyfraniad y bydd yn ei wneud i arloesi ac entrepreneuriaeth, ymchwil a datblygu ac awtomeiddio, allforion a masnach, swyddi a sgiliau o ansawdd uchel, a datgarboneiddio. Dyma rai o'r heriau strategol allweddol sydd gennym i fynd i'r afael â nhw os ydym yn mynd i sicrhau twf nid yn unig heddiw, ond twf sy'n gydnaws â'r dyfodol er mwyn manteisio i'r eithaf yn y cyfleoedd sydd o'n blaenau. Gyda'i gilydd, mae'r contract economaidd a'r galwadau i weithredu yn sail i'n model gweithredu newydd sydd wedi'i dargedu at sicrhau buddsoddiad cyhoeddus gyda diben cymdeithasol—gan sbarduno cyfoeth a lles, twf cynhwysol heddiw, a pharatoi busnes a'r economi ar gyfer yfory.

O heddiw ymlaen, byddwn yn newid yn gwbl ddiraferth i'r dull newydd hwn. Ymdrinnir â'r holl gynigion buddsoddi busnes newydd a gyflwynir ar gyfer cymorth ariannol uniongyrchol dan fy rheolaeth uniongyrchol i yn y modd newydd hwn, gyda'r hen ffordd o weithio ond yn berthnasol i brosiectau etifeddol i warantu parhad busnes a throsi esmwyth. Wrth inni weithredu'r dull newydd hwn, rwy'n benderfynol ein bod yn manteisio ar yr hyn a ddysgir ac yn defnyddio hyn i fireinio ac ysgogi gwelliant parhaus. Mae hyn yn rhan o'n ffordd newydd o weithio, ac felly byddaf yn parhau â'r sgwrs â busnesau i gael eu barn ynglŷn â sut y mae model gweithredu newydd yn gweithio yn ymarferol fel y gall barhau i esblygu a llywio ein dull gweithredu yn unol â hynny. Fy ngweledigaeth i, ac un y Cabinet, yw, dros amser, y byddwn yn ehangu cwrpas y dull newydd hwn ac yn cofleidio cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau ar draws yr holl Lywodraeth. Fodd bynnag, mae hwn yn newid sylweddol, ac rwyf am sicrhau ein bod yn ei weithredu'n dda ac yn defnyddio ein dysgu ar gyfer gweithredu pellach.

Rwy'n cydnabod y galwadau gan fusnesau ac eraill i wneud ein dull nio weithio yn fwy llyfn ac effeithiol lle bynnag y bo modd. Un o'r meysydd lle rydym ni'n clywed y ple hwn uchaf yw mewn cysylltiad â'n cymorth ariannol. Nid oes unrhyw amheuaeth bod busnesau yn gwerthfawrogi'r cymorth ariannol a ddarperir gennym ni ac mae ganddo ran fawr yn helpu rhai busnesau i gyflawni eu dyheadau i gynnal eu hunain a thyfu. Fodd bynnag, weithiau, gall yr amrywiaeth o gynlluniau, rhaglenni a chronfeydd a gynigiwn ni fod yn ddrislyd a chymhleth. Rwy'n ymateb i'r pryderon hyn ac, yn rhan o'r model gweithredu newydd, rwyf wedi cyfuno nifer o gynlluniau

presennol o fewn cronfa newydd, sef cronfa dyfodol yr economi. Rwyf eisiau i'r cymorth ariannol uniongyrchol a gynigiwn i fusnes fod yn glir, yn hawdd ei ddeall ac yn ymatebol. Bydd cronfa dyfodol yr economi yn gwneud cyfraniad pwysig yn hynny o beth.

Yn unol â'r agenda hon o symleiddio, rwy'n falch o gyhoeddi y sefydlir Bwrdd Cyngori Gweinidogol cyffredinol newydd ochr yn ochr â phroses gyfochrog i symleiddio'r cyrff cyngori presennol pan fo'n bosibl ac ymarferol. Bydd y Bwrdd Cyngori Gweinidogol newydd yn ategu trefniadau partneriaeth cymdeithasol presennol ac yn darparu mecanwaith allanol cryf ar gyfer herio a chynghori a chefnogi'r broses o roi'r cynllun gweithredu economaidd ar waith yn effeithiol. Rwy'n sefydlu'r Bwrdd Cyngori Gweinidogion yn gyfrwng pontio er mwyn caniatáu amser i gynnal proses penodiadau cyhoeddus. Caiff ei gadeirio gan Syr Adrian Webb, a chyhoeddir rhestr lawn o'r Aelodau ar wefan Llywodraeth Cymru.

Nid yw gweithredu'r cynllun economaidd yn dod i ben gyda'r datganiad hwn heddiw. Mae gennym waith pwysig i'w wneud wrth weithredu agweddau allweddol eraill ar y cynllun—ein dull newydd o ddatblygu economaidd rhanbarthol a gweithgarwch traws-Lywodraethol ehangach. Y rhain fydd y meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ail gam gweithredu'r cynllun, ac, i helpu i ddatblygu hyn, rwyf yn sefydlu bwrdd cyflawni traws-Lywodraethol o uwch weision sifil a byddaf yn ei gadeirio .

Wrth i ni roi'r cynllun hwn ar waith, byddwn yn dysgu o'r arferion gorau yn rhyngwladol, ac mae hyn yn cynnwys cymryd y cam dewr o fod yn agored i gael ein herio yn adeiladol gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd a chan arbenigwyr rhyngwladol eraill yn y maes datblygu economaidd. Byddaf mewn sefyllfa i roi manylion pellach am y gwaith hwn yn y cam gweithredu nesaf.

Edrychaf ymlaen at ddiweddarau'r Aelodau ar y datblygiadau hyn yn ystod yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

Contract economaidd newydd ar gyfer busnesau sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru (20 Mai 2018)

O heddiw ymlaen, bydd yn rhaid i fusnesau sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru arwyddo contract economaidd newydd. Nod y contract newydd yw sicrhau gwaith teg, twf cynhwysol ac ymddygiadau busnes cyfrifol.

Y Contract Economaidd yw un o bolisiau allweddol Cynllun Gweithredu ar yr Economi gan Lywodraeth Cymru, a lansiwyd gan Ken Skates, Ysgrifennydd yr Economi, ym mis Rhagfyr.

Mae'r Cynllun yn nodi dull newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu'r economi ac mae'n canolbwyntio ar adeiladu sylfeini cryf ar gyfer twf cynhwysol, sbarduno diwydiannau'r dyfodol a rhoi grym i ranbarthau.

O dan y Contract Economaidd newydd, bydd yn rhaid i fusnesau sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru ymrwmo i egwyddorion twf, gwaith teg, lleihau olion traed carbon, iechyd, a sgiliau a dysgu yn y gweithle.

Dywedodd Ken Skates, Ysgrifennydd yr Economi:

“Mae'n cytundeb economaidd newydd yn dechrau perthynas newydd a deinamig rhwng Llywodraeth Cymru a busnesau, sy'n seiliedig ar egwyddor buddsoddi cyhoeddus ag iddo bwrpas cymdeithasol.

“Mae'n golygu y bydd busnesau sy'n ceisio'n cymorth yn cydweithio â ni ac yn ymrwmo i'r egwyddorion rydyn ni'n eu hyrwyddo, sef twf, gwaith teg, iechyd, sgiliau a dysgu, a datgarboneiddio.

“Mae'r contract hwn yn ymwneud ag ymgysylltu, cymhelliant a hyrwyddo arferion da; ymagwedd 'rhywbeth er lles pawb' sy'n annog busnesau a'r Llywodraeth i ganfod a phrofi sut y gall cwmni gyfrannu at ffyniant a llesiant ei weithwyr a'r gymuned ehangach.

“Mae llawer o gwmnïau llwyddiannus eisoes wrthi'n mabwysiadu arferion cyflogaeth a busnes cyfrifol, ac rydyn ni am annog a chefnogi busnesau eraill i wneud yr un peth.”

Cafodd y Contract Economaidd ei lansio bedwar mis yn ôl ar ôl ymgynghori â busnesau. Mae hyn wedi helpu i lunio'r ffordd y mae'r cynllun gweithredu ar yr economi yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd.

Mae pum Maes Gweithredu Llywodraeth Cymru, a gafodd eu llunio i ddiogelu dyfodol busnesau, hefyd wedi'u rhoi ar waith.

Mae hyn yn golygu ei bod bellach yn ofynnol i unrhyw fusnes sy'n galw am gymorth ariannol ddatblygu cynigion sy'n cyd-fynd ag o leiaf un o'r meysydd gweithredu. Mae'r rheini'n canolbwyntio ar arloesi ac entrepreneuriaeth, ymchwil a datblygu, allforio a masnachu, swyddi a sgiliau o ansawdd uchel, a datgarboneiddio.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud y pethau a ganlyn:

- Lansio ei Chronfa Dyfodol yr Economi sy'n ateb y galw gan fusnesau i symleiddio chwe chronfa sy'n ymwneud â'r economi, trafnidiaeth a thwristiaeth a rhai eraill maes o law.
- Cyhoeddi enwau aelodau'r Bwrdd Cyngori Gweinidogion newydd, dan gadeiryddiaeth Syr Adrian Webb. Bydd y Bwrdd yn helpu i lunio polisiau a rhoi cyngor allanol cryf a heriol. Bydd y Bwrdd Cyngori Gweinidogion yn disodli nifer o fyrddau, paneli a grwpiau Llywodraeth Cymru dros amser, gan symleiddio'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cael cyngor allanol.
- Sefydlu Bwrdd Cyflawni dros y Llywodraeth, dan gadeiryddiaeth Ken Skates, er mwyn sicrhau bod egwyddorion y cynllun gweithredu ar yr economi ar waith yn holl feysydd gwaith y Llywodraeth.

Ychwanegodd Ysgrifennydd yr Economi:

"Roedd yn dda gen i weld ymateb cadarnhaol busnesau i'n cynllun gweithredu ar yr economi, ac mae'r cyfraniad y gwnaethon nhw at ei lunio wedi creu argraff dda arna i.

"Dw i'n edrych ymlaen yn eiddgar nawr at roi'r cynllun ar waith gyda'i ffordd newydd o gydweithio â busnesau a'u cefnogi, ac o gael cyngor allanol. Nod hyn i gyd yw sicrhau twf cynhwysol, diogelu dyfodol busnesau a galluogi'n pobl a'n lleoedd i fod yn fwy cynhyrchiol.

"Dim ond y dechrau yw heddiw a dw i'n edrych ymlaen at roi cam nesaf y cynllun ar waith, a fydd yn canolbwyntio ar ein dull newydd ar gyfer datblygu economi'r rhanbarthau ac ar weithgarwch ehangach ar draws y Llywodraeth, nes ymlaen yn y flwyddyn."

Dyma aelodau Grŵp Cyngori'r Gweinidog:

- Adrian Webb - Cadeirydd

- Katherine Bennett – Airbus
- Chris Sutton – Arweinydd Gyfarwyddwr/ Prif Swyddfa JLL
- Monica Bradley - Purposeful Capital
- Rachel Clacher – Money Penny
- Debbie Green - Prif Weithredwr, Coastal Housing Association
- Mario Kreft - Cyfarwyddwr, Cartref Gofal Pendine Park
- James Davies - Cadeirydd, Industry Wales
- Chris Nott – Uwch-bartner, Capital Law
- Justin Albert - Cyfarwyddwr, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.